Hawdd ei Ddarllen

Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives

Brechiad y Ffliw drwy Chwistrell Trwyn a Gelatin

Gwybodaeth i rieni am frechiad y ffliw ar gyfer plant sy'n cael ei roi drwy chwistrell i fyny'r trwyn

Ysgrifennwyd y daflen hon gan **Iechyd Cyhoeddus Cymru.** Mae wedi'i gwneud yn hawdd ei darllen gan **Dewis Cymru**.

Am y ffliw a brechiad y ffliw

Mae **ffliw** yn haint a achosir gan germau. Gall achosi pethau fel:

- tymheredd uchel
- corff yn brifo
- cur pen
- peswch
- dolur gwddw.

Mae **brechiad y ffliw** yn feddyginiaeth sy'n helpu i'ch stopio chi rhag mynd yn sâl o'r **ffliw.** Gall helpu i stopio lledaenu'r haint i bobl eraill. Mae'n un o'r ffyrdd gorau o ddiogelu eich plentyn rhag y **ffliw.**

Gallwch gael **brechiad y ffliw** fel pigiad, neu fel chwistrell i fyny eich trwyn. Mae plant yn cael chwistrell i fyny eu trwyn.

Mae'r daflen yma am **frechiad y ffliw** drwy chwistrell trwyn. Yr enw arno ydi **Fluenz Tetra**. Mae gan y math yma o **frechiad y ffliw gelatin** ynddo.

Am gelatin



Mae gan y **brechiad ffliw** Fluenz Tetra ychydig iawn o **gelatin** o foch ynddo.

Mae **gelatin** yn cael ei ddefnyddio mewn bwyd hefyd. Fel malws melys ac eirth gwm.

Ond yn wahanol i gelatin mewn bwyd, mae'r gelatin mewn **brechiad y ffliw** yn bur iawn.

Ystyr pur yw glân.

Pam mae gelatin yn cael ei ddefnyddio yn y brechiad ffliw drwy chwistrell trwyn?

Mae gelatin yn cael ei ddefnyddio mewn llawer o feddyginiaethau. Mae'n cadw'r feddyginiaeth yn ddiogel ac yn ei helpu i weithio.
Dim ond ychydig iawn o gelatin sydd yn chwistell trwyn **brechiad y ffliw**.

Pam nad oes posib defnyddio rhywbeth arall yn lle gelatin?

Cafodd gelatin ei ddewis ar ôl blynyddoedd o brofi ac astudiaethau. Gallai gymryd blynyddoedd i ddod o hyd i rywbeth arall sy'n gweithio. Efallai na wnawn ni ddod o hyd i unrhyw beth arall.



Beth am grefydd?

Nid yw rhai pobl mewn cymunedau Mwslimaidd ac Iddewig yn cytuno gyda chymryd meddyginiaeth gyda gelatin porc ynddi. Maen nhw'n credu ei fod yn erbyn rheolau eu crefydd.

Mae arweinwyr Iddewig wedi dweud bod **brechiad y ffliw** drwy chwistrell trwyn yn iawn i bobl Iddewig ei gymryd. Am nad yw'n cael ei fwyta.

Ond mae rhai pobl yn dal i ddewis **peidio** cymryd meddyginiaeth gyda gelatin porc ynddi, oni bai:

- nad oes dim byd arall i'w gymryd yn ei lle

Oes posib i fy mhlentyn gael brechiad ffliw gwahanol?

Brechiad y ffliw drwy chwistrell trwyn yw'r warchodaeth orau yn erbyn y **ffliw** i blant 2 oed a hŷn.

Nid oes gan **frechiad y ffliw** drwy bigiad gelatin ynddo ond nid yw'n gweithio mor dda i blant. Efallai y bydd rhai plant angen 2 ddos.

Os yw eich plentyn yn gallu cael **brechiad y ffliw**, ond **nad** ydych eisiau i'ch plentyn gael y chwistrell trwyn, gallwch ofyn am bigiad yn ei le.

Ni fydd eich plentyn yn gallu cael pigiad **brechiad y ffliw** yn yr ysgol. Bydd rhaid i chi ofyn yn eich meddygfa am hyn.

Mwy o wybodaeth

Os oes gennych chi unrhyw bryderon neu os ydych chi eisiau siarad gyda rhywun am **frechiad y ffliw**:

- Siaradwch â'ch meddyg neu eich nyrs yn eich meddygfa.

Mae galwadau i 111 am ddim o linellau tir a ffonau symudol. Mae galwadau i 0845 46 47 yn costio 2c y funud. Rhaid i chi dalu hyn ar ben ffioedd arferol eich darparwr ffôn.

Mae mwy o wybodaeth ar ein gwefan ni hefyd: phw.nhs.wales/fluvaccine

kkk
© Public Health Wales, September 2021 Version 2

ISBN 978-1-78986-154-495